



Tabl o gymwysterau gofynnol ar gyfer rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn Asiantaethau Gofal Cartref yng Nghymru

Rheolwr Gofal Cartref

Mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ymarfer fel y rheolwr cofrestredig mewn asiantaeth gofal cartref yng Nghymru. Er mwyn cofrestru, rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'r rheoliadau'n mynnu bod rhaid i bobl sydd wedi'u henwi i ddirprwyo i reolwr cofrestredig fod yn gymwys fel rheolwr gofal cartref a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd. Gellir darllen rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru ar ein gwefan - [rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Cymwysterau cyfredol angenrheidiol	Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon
Cymwysterau eraill sydd hefyd yn dderbyniol ar gyfer cofrestru	NVQ 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal NVQ 4 Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig NVQ 4 Rheolaeth (a aseswyd mewn lleoliad gofal) NVQ 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc) NVQ 4 mewn Gofal Diploma mewn Rheolaeth Gofal Cartref Cymhwyster gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (gan gynnwys Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol, DipSW, CQSW, CSS) ac un o'r cymwysterau uchod .

Ystyrir bod deiliaid unrhyw gymhwyster gofal cymdeithasol arall y mae Gofal Cymdeithasol Cymru neu Gyngor Gofal o'r farn ei bod yn gyfwerth â'r rhai a restrir yn yr Atodlen hon wedi cwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r gofyniad yn ymwneud ag ef at ddibenion adran 84(b)(ii) y Ddeddf.

Islaw lefel rheolwr

I gofrestru, mae'n rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal cartref gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn mis Ebrill 2020.

Os byddwch chi'n gwneud cais am gofrestru cyn 2020, mae dau lwybr ychwanegol y gallwch eu dilyn. Rhestrir y rhain ar waelod y ddogfen hon.

Cymwysterau cyfredol angenrheidiol	<p>Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon</p> <p>neu</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon</p> <p>neu</p> <p>Os ydych chi'n gweithio gyda phlant: Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon</p>
Other qualifications accepted for registration below manager level	<p>NVQ 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc)</p> <p>NVQ 3 mewn Gofal</p> <p>NVQ 3 mewn Hybu Annibyniaeth</p> <p>NVQ 3 mewn Gofalu am Blant a Phobl Ifanc</p> <p>NVQ 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p> <p>NVQ 2 mewn Gofal</p> <p>Diploma Lefel 2 mewn Gofal Iechyd Clinigol</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Gofal Iechyd Clinigol</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Therapi Galwedigaethol</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Ffisiotherapi</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Ailalluogi</p> <p>Nyrs gofrestredig lefel gyntaf.</p> <p>Cymhwyster gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal/Gofal Cymdeithasol Cymru**</p> <p>Rhestrir cymwysterau sy'n dderbyniol o wledydd eraill y Deyrnas Unedig yn y fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cartref.</p>

**Yn cynnwys Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol, DipSW, CQSW, CSS

Gwneud cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cartref cyn mis Ebrill 2020

Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2020, gallwch gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn wirfoddol. I wneud hyn, rhaid i chi naill ai feddu ar un o'r cymwysterau a restrir yn y tabl uchod neu allu cofrestru trwy naill ai:

- feddu ar y Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gwaith Cymdeithasol (Cymru)
neu
- os oes gennych dair blynedd neu fwy o brofiad parhaus o weithio yn y sector, datganiad o gymhwysedd a lofnodwyd gan eich rheolwr cofrestredig ac a ategir gan dystiolaeth o wybodaeth a sgiliau perthnasol.